OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 14 (Cy. 6)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Traphont Saltings, Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Ionawr 2013* |
| *Yn dod i rym* | *21 Ionawr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ionawr 2013, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Traphont Saltings, Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffordd yr A465 yng Nghyfnewidfa Castell-nedd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwahardd**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 11 Ionawr 2013

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd(Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

### Y darnau o Gefnffordd yr A465 yng Nghyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot.

(i) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gogledd hyd at bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd.

(ii) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r de hyd at bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r de.